JONES, JENKIN (bu farw 1689), Cilgerran, capten ym myddin y Senedd a phregethwr Piwritanaidd, Annibynnwr

Enw: Jenkin Jones
Dyddiad marw: 1689
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: capten ym myddin y Senedd a phregethwr Piwritanaidd, Annibynnwr
Maes gweithgaredd: Crefydd; Milwrol
Awdur: Thomas Richards

Trigai yn Rhos y Gilwen yn rhan isaf y plwyf, a daeth i amlygrwydd yn 1656 drwy gefnogi Diffynwriaeth Cromwell drwy arwyddo ei enw ar yr *Humble Representation and Address*. Yn oes yr Adferiad sicrhaodd (drwy Stephen Hughes) drwydded o dan Ddedarasiwn 1672 i bregethu yn ei d ei hun; ychydig oedd nifer ei ddilynwyr, meddai adroddiad Henry Maurice yn 1675; yn 'census' yr archesgob Sheldon, 1676, saith Anghydffurfiwr oedd yn y plwyf. O dan gynlluniau Iago II i roddi rhyddid crefyddol i bawb yn y wlad (ond yn fwyaf i Babyddion) awgrymwyd enw Jones fel ustus heddwch o Ymneilltuwr tebygol o roddi hwb a help i'r cynlluniau, ond nid oes rithyn o brawf y credai Jenkin Jones yn niffuantrwydd y brenin, nac y byddai'n debyg o weithredu'r cynlluniau pe dewisid ef. Prawf ei ewyllys, dyddiedig 2 Ionawr 1688-9 -profwyd hi yng Nghaerfyrddin ar 25 Mehefin - ei fod yn bur gefnog: cadwai bedair iau o ychen, mwy nag 20 o geffylau, ac yr oedd iddo lawer o diroedd a da yn siroedd Penfro a Chaerfyrddin. Arolygwyr ei ewyllys oedd Stephen Hughes a John Evans o Drefenty yn Abercywyn, uchel sirydd Caerfyrddin yn 1687-8; y tyst cyntaf oedd y John Thomas hwnnw a gadwai lygad ar Annibynwyr dwy ochr Teifi wedi marw Jenkin Jones, ac a dyfodd yn ddadleuwr mawr yn erbyn Bedyddwyr yr ardaloedd. Y mae lle i ofni na cherddodd y mab, THEOPHILUS JONES, yn llwybrau ei dad; beth bynnag, gwelir ei enw ymhlith yr Eglwyswyr da a gyfrannodd tuag at atgyweirio Eglwys Fair yn nhref Aberteifi, 1702-3. Priododd Ann, merch Theophilus, ac aeres tiroedd Rhos y Gilwen, ag un o deulu'r Colbys, Anglicaniaid pybyr. [Gweler hefyd Jenkin Jones (1623-)]

Awdur

Thomas Richards, (1878 - 1962)

Ffynonellau

Calendar of State Papers, Domestic Series, Chas. II, Entry Book 38 A. 85

Broadmead Records (1847, 1865), Add. B, 517

Salt MS. 2112 yn llyfrgell William Salt, Stafford 391

Llawysgrif Rawlinson yn Llyfrgell Bodlean, Rhydychen A. 139A, o dan sir Benfro

Llawysgrif o eiddo'r Presbyterian Board, a gyhoeddwyd gan Alexander Gordon dan y teitl Freedom after Ejection. A Review (1690–1692) of Presbyterian and Congregational Nonconformity in England and Wales, 1917, 144, 366

S. R. Meyrick, *The history and antiquities of the county of Cardigan* (Brecon 1907), 175

John Roland Phillips, *The history of Cilgerran* (1867), 126

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Jenkin Jones

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q6177546

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu